

## Stephanie Sims

## Cyfranogwr – Pobl Yn Canu

**1. Allwch chi ddweud ychydig wrthym amdanoch chi'ch hun a sut oedd bywyd cyn i chi ymwneud â'r Ffwrnes Fach?**

Ro’n i wedi bod trwy fy ail lot o ganser yn 2015, a bwliodd ffrind fi i ymuno â chôr Tenovus, roedd yn amser llawn straen, a thawel iawn, ond pan ymunais â'r côr, daeth Eleanor i mewn un noson a fy mherswadio i ymuno â phrosiect roedd hi'n ei gynnal i adrodd ein stori. Ro’dd yn brofiad gwych. Roedd yn emosiynol iawn ond o hynny, ymunais â PSU ac rwyf wedi bod yn dod byth ers hynny.

**2. Sut wnaethoch chi ymwneud â'r Ffwrnes Fach? Beth oeddech chi'n gobeithio fyddai'n digwydd o ganlyniad i ymwneud?**

Do’dd gen i ddim syniad beth fyddai'n digwydd, ro’n i'n mynd trwy gyfnod llawn straen a thrwy PSU, ro’n i wrth fy modd i ddarganfod ffrindiau newydd a gallu darganfod pethau i'w gwneud a oedd yn newydd ac i allu ymestyn fy meddwl a'm dychymyg.

**3. O ganlyniad i gyfranogi, beth ydych chi'n meddwl sydd wedi bod y newid mwyaf arwyddocaol i chi'n bersonol?**

Mynd allan mwy! Llawer mwy. A chwrdd â phobl newydd, ac yn bwysig iawn, dw i wedi dod i adnabod cymaint o wahanol bobl o bob math o gefndiroedd ac rwy'n eu caru i gyd! Rwy'n hoffi pob un ohonyn nhw ac yn dod ymlaen â phob person. Ma' nhw wedi dysgu llawer i fi am fywyd.

**4. Beth achosodd y newid hwn?**

Rwy'n meddwl mai dim ond taflu fy mhryder am gymryd rhan mewn pethau oedd e. Dw i'n ymwneud â'r Sefydliad y Merched hefyd ond yma rwy'n cael cwrdd â chymaint o bobl y tu allan i'r rhai y byddwn fel arfer yn dod ar eu traws. Dw i wedi cwrdd â chymaint o ddynion, menywod ac eraill sydd wedi fy nysgu nad yw bywyd yn gorfod bod yn gyffredin.

**5. Pe baech yn dweud wrth bobl eraill am People Speak Up, beth fyddech chi'n ei ddweud?**

Mae pobl wedi gofyn i fi am PSU a dw i ddim yn gallu ei egluro mewn llai na 200 tudalen. Mae'n eclectig a dw i'n gorffen trwy dweud, byddaf yn dod â thaflen i chi oherwydd mae cymaint i'w wneud yma ac rwy'n ei weld yn cwmpasu pob oedran, amrywiaeth o bobl a dw i ddim yn gallu ei egluro mewn ymadrodd syml.

**6. Pa deitl fyddech chi'n ei roi i'ch stori?**

O'r gorffennol i fy nyfodol.